

**Ymgynghoriad ar Fethodoleg Prasio  
Trosglwyddo Gwastraff wedi'i  
diweddaru ar gyfer gwaredu gwastraff  
uchel ei actifedd o orsafoedd ynni  
niwclear newydd**

# Pennod 1: Cyflwyniad

## Crynodeb Gweithredol

### Nod yr ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn cyhoeddi'r "Ymgynghoriad ynghylch Methodoleg i Bennu Pris Uned Sefydlog ar gyfer Gwaredu Gwastraff ac Amcangyfrifon Costau wedi'u Diweddarau ar gyfer Datgomisiynu Niwclear, Rheoli Gwastraff a Gwaredu Gwastraff" ym mis Mawrth 2010 ("ymgynghoriad mis Mawrth").
- 1.2 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi:
  - Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad mis Mawrth;
  - y newidiadau allweddol sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad;
  - methodoleg wedi'i diweddarau i ymgynghori ymhellach arni.
- 1.3 Rydym yn gofyn am ymatebion i'r tri chwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd yr ymatebion yn helpu'r Llywodraeth i ddatblygu methodoleg derfynol ar gyfer prisio'r broses o drosglwyddo teitl i wastraff lefel ganolraddol (ILW) a gweddillion tanwydd oddi wrth weithredwr niwclear newydd, ynghyd â'r atebolrwydd dros hynny, i'r Llywodraeth (y "Fethodoleg Prisio Trosglwyddo Gwastraff").

### Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad mis Mawrth

- 1.4 Gofynnodd ymgynghoriad mis Mawrth am ymatebion i chwe chwestiwn. Mae Pennod 2 yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd llawer o'r ymatebion yn cefnogi cynigion y Llywodraeth yn gyffredinol ond cafwyd sylwadau neu bryderon am bwyntiau penodol, er enghraifft roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr ymgynghoriad yn rhy geidwadol mewn perthynas â'r ansicrwydd ynghylch costau gwaredu gwastraff. Beirniadodd ymatebion eraill y cynigion, er enghraifft codwyd pryderon bod y cynigion yn golygu bod y trethdalwr yn agored i risgiau annerbyniol a'u bod yn gyfystyr â chymhorthdal i ynni niwclear newydd.
- 1.5 Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno bod cymryd teitl i wastraff ymbelydrol, gan gynnwys gweddillion tanwydd, am bris sefydlog yn gyfystyr â chymhorthdal i ynni niwclear newydd, ar yr amod bod y pris yn adlewyrchu'n briodol unrhyw risgiau neu rwymedigaethau ariannol y mae'r wladwriaeth yn eu hysgwyddo<sup>1</sup>. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod yr ymagwedd tuag at risg ac ansicrwydd a nodwyd yn ymgynghoriad mis Mawrth yn geidwadol ond, o gofio'r ansicrwydd ynghylch

---

<sup>1</sup> I gael rhagor o wybodaeth am bolisi'r Llywodraeth na ddylai fod cymhorthdal ar gyfer ynni niwclear newydd, gweler y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig dyddiedig 18 Hydref 2010 [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/news/en\\_statement/en\\_statement.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/news/en_statement/en_statement.aspx)

amcangyfrifon o gostau gwaredu, mae o'r farn bod angen ceidwadaeth o'r fath er mwyn sicrhau y diogelir y trethdalwr.

- 1.6 Roedd a wnelo Cwestiwn 1 â'r cynnig y dylai fod yn bosibl i weithredwyr ynni niwclear newydd ddewis gohirio pennu eu Pris Trosglwyddo Gwastraff am Gyfnod Gohirio penodedig. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y byddai'n well pennu Pris Terfynol pan fydd mwy o sicrwydd ynghylch costau gwaredu. Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn, a nodir yn fanylach yn Adran 3.2, y dylid ymestyn y Cyfnod Gohirio ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd o 10 mlynedd, fel y'i cynigiwyd yn ymgynghoriad mis Mawrth, i 30 mlynedd ar ôl dechrau cynhyrchu ynni.
- 1.7 Roedd a wnelo Cwestiwn 2 â'r cynnig y dylid pennu amserlen gynt i'r Llywodraeth gymryd y teitl i wastraff gweithredwr a'r atebolwydd drosto ("Trosglwyddo Cynnar") ac y dylid ei phennu mewn perthynas â'r dyddiad a ragfyneir ar gyfer gorffen y broses o ddiogomisiynu'r orsaf ynni niwclear newydd. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod mewn sefyllfa well na gweithredwyr i reoli'r risgiau hirdymor o ran costau ac felly mae'n credu bod y cynigion yn yr ymgynghoriad ar gyfer trosglwyddo gwastraff yn gynnar, ynghyd â digon o arian i dalu'r holl gostau ychwanegol y mae'r Llywodraeth yn mynd iddynt cyn y broses waredu, yn rhan bwysig o'r fframwaith i ddiogelu'r trethdalwr. Mae'r Llywodraeth yn fodlon y gall y cyfandaliad i ad-dalu'r Llywodraeth am y costau ychwanegol sy'n deillio o'r broses Trosglwyddo Cynnar gael ei gyfrifo'n ddigon cywir i leihau unrhyw risg i'r trethdalwr.
- 1.8 Gofynnodd Cwestiwn 3 am sylwadau o ran a oedd y fethodoleg arfaethedig yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu'r trethdalwr a hwyluso gorsafoedd ynni niwclear newydd. Mae'r Llywodraeth o'r farn i ymgynghoriad mis Mawrth nodi dull gweithredu clir os bydd y broses Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (MRWS) yn mynd rhagddi fel y'i disgwylir ar hyn o bryd fwy neu lai, ond mae'n derbyn bod angen mwy o eglurder o ran y ffordd y byddai'r Pris yn cael ei bennu pe na bai pethau'n mynd yn unol â'r disgwyliadau presennol, ac ymdrinnir â hyn yn y fethodoleg ddiwygiedig a nodir ym Mhennod 3.
- 1.9 Roedd a wnelo Cwestiwn 4 â'r dull arfaethedig o bennu cyfraniad gweithredwr at Gostau Sefydlog adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF). Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r cynigion a nodir yn ymgynghoriad mis Mawrth, sef y dylai'r Pris Trosglwyddo Gwastraff gynnwys cyfraniad at Gostau Sefydlog GDF. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hyn yn gyson â'i pholisi y dylai gweithredwyr niwclear newydd dalu eu cyfran lawn o gostau gwaredu gwastraff. Dylai cyfraniad gweithredwr niwclear newydd at Gostau Sefydlog GDF gael ei gyfrifo i fod yn gymesur â chyfran y gweithredwr o gyfanswm y Costau Newidiol.
- 1.10 Gofynnodd Cwestiwn 5 am sylwadau ar yr unedau arfaethedig i'w defnyddio i bennu Pris. Mae'r Llywodraeth yn falch o nodi bod cytundeb cyffredinol i'w chynnig mai'r metr ciwbig o wastraff wedi'i becynnu fydd yr uned ar gyfer ILW. O ran gweddillion tanwydd, mae'n amlwg mai dadl gyfartal iawn yw hon, ond ymddengys bod llai o risgiau yn gysylltiedig â defnyddio uned gyfeintiol syml, megis £/tU, yn hytrach na'r uned a gynigiwyd yn ymgynghoriad mis Mawrth, sef

p/kWh. Byddai hyn yn gyson â'r Rhestr Genedlaethol gyfredol hefyd, a fyddai o fudd.

- 1.11 Roedd a wnelo Cwestiwn 6 â'r amcangyfrifon wedi'u diweddarau o ran digomisiynu, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr amcangyfrifon a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn feincnod ar gyfer asesu'r amcangyfrifon a gaiff eu llunio gan weithredwyr. Fodd bynnag, bydd yn disgwyl i weithredwyr lunio eu hamcangyfrifon eu hunain a chreffir ar yr amcangyfrifon hynny'n fanwl.

### **Methodoleg Priso Trosglwyddo Gwastraff**

- 1.12 Mae Pennod 3 yn nodi'r Fethodoleg Priso Trosglwyddo Gwastraff ddiwygiedig a gofynnir am sylwadau ar hyn yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r Fethodoleg Priso Trosglwyddo Gwastraff fel a ganlyn:
- Amcan y Llywodraeth yw sicrhau y caiff ILW a gweddillion tanwydd o orsafoedd ynni niwclear newydd eu gwaredu'n ddiogel heb gost i'r trethdalwr a hwyluso buddsoddiad drwy roi sicrwydd o ran costau. Nid yw'r Llywodraeth yn ceisio gwneud elw yn ychwanegol at lefel sy'n gyson â chael ei digolledu am lefel y risg a ysgwyddir, ond mae'n disgwyl i weithredwyr dalu eu cyfran lawn o gostau gwaredu gwastraff.
  - Dylid rhoi sicrwydd i ddarparu weithredwyr niwclear newydd o ran y Pris Terfynol uchaf y bydd disgwyl iddynt ei dalu i'r Llywodraeth am ddarparu gwasanaeth gwaredu gwastraff.
  - Dylai'r Pris Terfynol a godir gan y Llywodraeth am ddarparu gwasanaeth gwaredu gwastraff gael ei bennu ar lefel yn ychwanegol at gostau disgwyliedig a dylai gynnwys Premiwm Risg i ddigolledu'r trethdalwr am ysgwyddo'r risg o gostau cynyddol wedi hynny.
  - Lle y bo'n bosibl, dylai'r Pris Terfynol gael ei bennu mewn perthynas â'r data ar gostau gwirioneddol, er mwyn sicrhau bod unrhyw Breimiwm Risg yn gymesur ac yn adlewyrchu'n briodol y risgiau ariannol y mae'r Llywodraeth yn eu hysgwyddo. Felly, er mwyn cael mwy o sicrwydd ynghylch costau disgwyliedig, dylid gohirio pennu'r Pris Terfynol am Gyfnod Gohirio penodedig, ar yr amod y bydd yn bosibl, o dan amgylchiadau penodol, i'r Pris Terfynol gael ei bennu cyn diwedd y Cyfnod Gohirio.
  - Yn ystod y Cyfnod Gohirio, mae'n rhaid i'r gweithredwr wneud darpariaeth ddoeth am eu rhwymedigaethau gwaredu gwastraff, yn seiliedig ar Bris Disgwyliedig a ddarperir gan y Llywodraeth.

### **Newidiadau arfaethedig yn dilyn ymgynghoriad mis Mawrth**

- 1.13 Cynigir dau newid sylweddol i'r fethodoleg a nodwyd yn ymgynghoriad mis Mawrth ac mae'r Llywodraeth yn gofyn am sylwadau ar y ddau newid hyn yn benodol yn yr ymgynghoriad pellach hwn.
- 1.14 Nododd ymgynghoriad mis Mawrth, wrth ofyn i Bris gael ei ohirio, y byddai'r gweithredwr yn derbyn y risg y gallai Pris a bennid ar ddyddiad diweddarach fod yn uwch na'r Pris a gynigid ar y dechrau, pe bai costau amcangyfrifedig yn cynyddu'n ddigonol yn y cyfamser. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad,

mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd yn anodd i weithredwr dderbyn risg o'r fath, o gofio nad oes fawr ddim y gall y gweithredwr ei wneud i'w rheoli na'i lliniaru. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes gan y Llywodraeth yr adnoddau i reoli risgiau o ran costau gwaredu gwastraff, oherwydd bydd y ffordd y mae'r Llywodraeth yn mynd ati i waredu gwastraff yn ddaearegol yn dylanwadu'n fawr ar y costau hyn. Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn rhesymol i weithredwyr niwclear gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch y graddau mwyaf y byddant yn agored i'r risgiau hyn ar y dechrau.

- 1.15 Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu pennu Pris Terfynol uchaf y byddai disgwyl i'r gweithredwr ei dalu (y "Cap"). Bydd y Cap (a gaiff ei fynegeio ar gyfer chwyddiant) yn adlewyrchu dadansoddiad presennol y Llywodraeth o risg ac ansicrwydd a chaiff ei bennu ar lefel lle y mae'r Llywodraeth yn hyderus iawn y bydd costau gwirioneddol yn llai na'r Cap. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, wrth bennu Cap, mai'r Llywodraeth fydd yn ysgwyddo'r risg weddilliol fach y gallai'r gost wirioneddol fod yn fwy na'r Cap. Felly, yn gyfnewid am bennu Cap, bydd y Llywodraeth yn codi ffi briodol ar y gweithredwr (y "Ffi Risg") a bydd yn ei chynnwys yn y Pris Terfynol.
- 1.16 Caiff y Cap ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ystyried proses modelu costau i gael amcangyfrifon o gostau gwaredu gwastraff gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon o'r costau hynny. Mae Adran 4.2 yn rhoi enghraifft ymarferol o'r ffordd y byddai Cap yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r Fethodoleg hon. Mae'n tybio, at ddibenion enghreifftiol, y caiff y Cap ei bennu ar y 99<sup>ain</sup> ganradd ( $P_{99}$ ) o'r dosbarthiad sy'n deillio o'r broses modelu costau, h.y. ar lefel lle yr amcangyfrifir bod tebygolrwydd o 99% y bydd y gost wirioneddol yn llai na'r Cap a thebygolrwydd o 1% y bydd y gost wirioneddol yn fwy na'r Cap.
- 1.17 Yr ail newid a gynigir yw y dylai'r Cyfnod Gohirio bara am 30 mlynedd ar ôl dechrau cynhyrchu ynni. Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai Cyfnod Gohirio o 30 mlynedd olygu y gall y Pris Terfynol gael ei bennu pan fydd y safle ar gyfer GDF yn hysbys. Bydd hyn yn golygu y gellir llunio Amcangyfrif o Gostau Safle Penodol, yn seiliedig ar lawer o ddata am gostau gwirioneddol a dim ond ychydig o ansicrwydd gweddilliol. Y dybiaeth gynllunio bresennol yw mai tua 2025 y cynhelir y broses Dewis Safle GDF.
- 1.18 Os nad yw'r broses Dewis Safle GDF wedi'i chynnal erbyn diwedd y Cyfnod Gohirio, defnyddir Dull Prisio Rhagosodedig i bennu'r Pris Terfynol. Yn ymarferol, o gofio na fydd ansicrwydd wedi lleihau'n sylweddol o bosibl, ystyrir ei bod yn debygol mai ar lefel y Cap neu'n agos ati y bydd y Pris Rhagosodedig.
- 1.19 Gall gweithredwr ofyn am i'w Bris Terfynol gael ei bennu yn ystod y Cyfnod Gohirio. Yn yr achos hwn, bydd lefel y Pris Terfynol yn unol â disgrisiwn yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ystyried y broses modelu costau sy'n ystyried yr ansicrwydd o ran amcangyfrif costau. Gall gweithredwr ddewis pennu ei Bris Terfynol ar lefel y Cap ar unrhyw adeg.

### ***Disgrifiad o'r Fethodoleg Prisio Trosglwyddo Gwastraff***

- 1.20 Dylai'r Pris Terfynol gael ei bennu ar lefel yn ychwanegol at gostau disgwylidig a dylai gynnwys Premiwm Risg i ddigolledu'r trethdalwr am dderbyn y risg o gostau

cynyddol wedi hynny. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r Pris Terfynol gael ei bennu yn unol â'r Fethodoleg Amcangyfrif Costau a nodir ym Mhennod 3.

1.21 Diben y Fethodoleg Amcangyfrif Costau yw nodi'n glir sut y caiff costau gwaredu gwastraff eu hamcangyfrif a sut y dylid ymdrin ag ansicrwydd yn yr amcangyfrifon hynny. Mae'r ffordd y caiff costau eu hamcangyfrif, a'r dadansoddiad o risg ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon presennol o gostau, yn gyson â'r dull gweithredu a nodir ym Mhennod 3 o ymgynghoriad mis Mawrth. Bydd y Fethodoleg Amcangyfrif Costau yn cynhyrchu dosbarthiad o gostau amcangyfrifedig a chaiff amcangyfrif ceidwadol o gostau (yr "Amcangyfrif Costau Prisio") ei bennu ar  $P_{95}$  o'r dosbarthiad hwn, h.y. wedi'i bennu ar lefel lle y disgwylir y bydd tebygolrwydd o 95% y bydd y gost wirioneddol yn llai na'r gost amcangyfrifedig a thebygolrwydd o 5% y bydd y gost wirioneddol yn fwy na'r gost amcangyfrifedig.

1.22 Caiff y Pris Terfynol a bennir ar ddiwedd y Cyfnod Gohirio ei bennu yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\text{Pris Terfynol} = \text{Amcangyfrif Costau Prisio} + \text{Ffi Risg}$$

1.23 Mae dau eithriad i hyn:

- Ni all y Pris Terfynol fod yn fwy na'r Cap;
- Os caiff y Pris Terfynol ei bennu cyn Dewis Safle GDF, caiff ei bennu drwy'r Dull Prisio Rhagosodedig.

1.24 Y Pris Disgwylidig yw amcanestyniad y Llywodraeth o'r Pris Terfynol pan gaiff ei bennu ar ddiwedd y Cyfnod Gohirio. Caiff y Pris Disgwylidig ei adolygu, a'i ailystyried os oes angen, ym mhob Adolygiad Pum Mlynedd i sicrhau mai amcanestyniad cyfredol ydyw o hyd o'r Pris Terfynol.

1.25 Erbyn diwedd y Cyfnod Gohirio, disgwylir y caiff y Fethodoleg Amcangyfrif Costau ei chymhwyso i Amcangyfrif o Gostau Safle Penodol. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl llunio amcangyfrif o'r fath tan ar ôl y broses Dewis Safle GDF. Felly, yn y cyfamser, ac at ddibenion cael Pris Disgwylidig, bydd angen cymhwyso Methodoleg Amcangyfrif Costau symlach gan ddefnyddio amcangyfrifon presennol NDA o gostau, sydd wedi'u llunio mewn perthynas ag achos cyfeirio. Mae Adran 4.3 o'r ymgynghoriad hwn yn rhoi enghraifft ymarferol o'r ffordd y byddai Pris Disgwylidig yn cael ei gyfrifo cyn Dewis Safle GDF gan ddefnyddio'r Fethodoleg hon.

### **Enghreifftiau ymarferol wedi'u diweddarau**

1.26 Mae Pennod 4 yn rhoi enghreifftiau ymarferol wedi'u diweddarau ar gyfer sawl agwedd ar y Fethodoleg Prisio Trosglwyddo Gwastraff wedi'i diweddarau. Mae'r enghreifftiau ymarferol yn dangos bod y dull arfaethedig o bennu Cap, sy'n ymdrin â risg ac ansicrwydd mewn ffordd geidwadol ac sy'n cymhwyso gwaith modelu costau tebygol, yn arwain at Gap sydd deirgwaith yn fwy na'r amcangyfrif gorau presennol o gostau gwaredu gwastraff.



1.27 Yn ogystal, cynigir bod y Pris a delir gan weithredwyr niwclear newydd yn cynnwys cyfraniad at Gostau Sefydlog y GDF. Mae hyn o fudd i'r trethdalwr, oherwydd bydd yn rhaid talu'r costau hyn beth bynnag er mwyn gwaredu gwastraff etifeddol. Felly, dim ond os bydd costau'n cynyddu i'r graddau fel bod y Cap yn annigonol i dalu'r costau gwaredu ychwanegol ar gyfer gwastraff gorsaf ynni niwclear newydd (h.y. y Costau Newidiol fel y'u diffinnir yn y Fethodoleg Amcangyfrif Costau) y bydd risg i'r trethdalwr. Mae'r Cap a geir yma bum gwaith yn fwy na'r amcangyfrif presennol o Gostau Newidiol. Mewn geiriau eraill, ni fyddai'r trethdalwr ar ei golled (o gymharu â dim gorsafoedd ynni niwclear newydd o gwbl) hyd yn oed pe bai costau gwaredu gwastraff bum gwaith yn fwy na'r hyn a ddisgwyliar ar hyn o bryd. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r ffigurau hyn.

	<b>Costau Newidiol Amcangyfrifedig</b>	<b>Cyfanswm y Gost Amcangyfrifedig</b>	<b>Cap</b>
Gweddillion tanwydd (£/tU)	193k	312k	978k
ILW (£/m <sup>3</sup> )	9.0k	14.5k	48.4k

**Tabl 1: cymharu'r gwerthoedd enghreifftiol ar gyfer y Cap â'r amcangyfrifon presennol gorau o gostau gwaredu gwastraff (gwerthoedd arian cyson Medi 2008).**

1.28 Mae Adran 4.5 yn nodi sut y gallai'r ffigurau enghreifftiol a geir yma gael eu trosi'n atebolrwydd gwaredu gwastraff ar gyfer gweithredwr niwclear newydd<sup>2</sup>, ar y Dyddiad Gwaredu Tybiedig (sef 2130 yn yr enghreifftiau ymarferol) ac ar y Dyddiad Trosglwyddo (y tybir mai 2080 ydyw yn yr enghreifftiau ymarferol.)

1.29 Mae hefyd yn rhoi enghraifft o'r ffordd y gallai'r ffigurau hyn gael eu trosi'n daliadau blynyddol i Gronfa annibynnol gweithredwr, wedi'u mynegi fel cost fesul uned o drydan a gynhyrchir (£/MWh). Mae'r cyfrifiad hwn yn dibynnu ar y tybiaethau a wneir o ran perfformiad buddsoddi Cronfa annibynnol y gweithredwr ac, o gofio'r amserlenni hir dan sylw, gall hyd yn oed amrywiadau bach ym mherfformiad tybiedig y Gronfa gael effaith fawr iawn ar y lefel amcangyfrifedig o daliad i mewn i'r Gronfa. Felly, at ddibenion enghreifftiol yn unig y mae'r ffigurau a roddir yma. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r ffigurau enghreifftiol hyn.

---

<sup>2</sup> Mae'r ffigurau yn yr ymgynghoriad hwn yn tybio y bydd PWR 1.35GW cyffredinol yn gweithredu am 40 mlynedd.

<b>Atebolrwydd gwaredu gwastraff dangosol ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd</b>	<b>Pris Terfynol = Pris Disgwyliedig</b>	<b>Pris Terfynol = Cap</b>
Cyfanswm yr atebolrwydd ar Ddyddiad Gwaredu Tybiedig 2130 (£)	670m	1104m
Cyfanswm yr atebolrwydd ar Ddyddiad Trosglwyddo 2080 (£)	226m	372m
Atebolrwydd wedi'i fynegi fel taliad blynyddol i'r gronfa (£/MWh)	0.20 – 0.43	0.33 – 0.71

**Tabl 2: Atebolrwydd gwaredu gwastraff dangosol ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd, fel y ceir yn Adran 4.5 (gwerthoedd arian cyson Medi 2008).**

## Cefndir

### Cyflwyniad

- 1.30 Mae'r adran hon yn nodi'r cefndir i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Er gwybodaeth yn unig y'i rhoddir yma.

### Ymgynghoriadau blaenorol

- 1.31 Cyhoeddwyd yr "Ymgynghoriad ynghylch Methodoleg i Bennu Pris Uned Sefydlog ar gyfer Gwaredu Gwastraff ac Amcangyfrifon Costau wedi'u Diweddarau ar gyfer Datgomisiynu Niwclear, Rheoli Gwastraff a Gwaredu Gwastraff" ar 25 Mawrth 2010<sup>3</sup>.
- 1.32 Roedd yr ymgynghoriad hwn yn dilyn cyhoeddi tri phapur trafod cyn ymgynghori yn ystod hydref 2008 a gwanwyn 2009<sup>4</sup>. Roedd y papurau hyn yn sail i drafodaethau â rhanddeiliaid yn ystod y broses cyn ymgynghori er mwyn mireinio'r fethodoleg pris uned sefydlog arfaethedig ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
- 1.33 Ar ôl ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad mis Mawrth, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod angen gwneud nifer o newidiadau i'r fethodoleg arfaethedig, a elwir yn Fethodoleg Prasio Trosglwyddo Gwastraff bellach. Mae'r Llywodraeth yn ceisio barn ar y newidiadau hyn drwy'r ymgynghoriad pellach hwn.

<sup>3</sup> [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc\\_waste\\_cost/nuc\\_waste\\_cost.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc_waste_cost/nuc_waste_cost.aspx)

<sup>4</sup> Mae'r papurau trafod hyn ar gael yn: [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/what\\_we\\_do/uk\\_supply/energy\\_mix/nuclear/new/waste\\_costs/waste\\_costs.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/what_we_do/uk_supply/energy_mix/nuclear/new/waste_costs/waste_costs.aspx)



## Deddf Ynni 2008

- 1.34 Polisi'r Llywodraeth yw bod yn rhaid bod gan weithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd drefniadau ar waith i dalu am gostau llawn digomisiynu a'u cyfran lawn o gostau rheoli a gwaredu gwastraff. Gweithredir y polisi hwn drwy fframwaith a grëwyd gan Ddeddf Ynni 2008<sup>5</sup>. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd feddu ar Raglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu (FDP), sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, cyn y gellir dechrau adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r rhaglen hon wedi hynny.
- 1.35 Ar 18 Hydref 2010, gosodwyd Gorchymyn Digomisiynu Niwclear a Thrin Gwastraff (Materion Technegol Dynodedig) 2010 gerbron y Senedd, i'w ddilyn gan Reoliadau Digomisiynu a Thrin Gwastraff (Cyllid a Ffioedd) 2010. Gyda'i gilydd, mae'r Gorchymyn a'r Rheoliadau yn cwblhau'r fframwaith statudol ar gyfer ariannu gwastraff niwclear a'r broses ddigomisiynu<sup>6</sup>.

## Canllawiau ar y Rhaglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu

- 1.36 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth hefyd yn cyhoeddi Ymgynghoriad ar Ganllawiau Diwygiedig ar y Rhaglen Ddigomisiynu wedi'i Hariannu<sup>7</sup>. Bydd y Canllawiau hyn yn helpu gweithredwyr i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Ynni, a'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer FDP y gellir ei chymeradwyo. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad cynharach yn 2008 ar Ganllawiau FDP drafft<sup>8</sup>.

## Gwaredu daearegol

- 1.37 Caiff dulliau gwaredu daearegol eu defnyddio i reoli gwastraff uchel ei actifedd yn yr hirdymor. Cyn hyn caiff cyfleusterau storio diogel eu defnyddio dros dro hyd nes bod GDF yn barod i dderbyn gwastraff. Nodwyd fframwaith i roi'r polisi hwn ar waith yn y Papur Gwyn ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008<sup>9</sup>. Rhoddodd y fframwaith hwn yr esboniad canlynol o ystyr "gwaredu daearegol":

*“Geological disposal involves isolating radioactive waste deep inside a suitable rock formation to ensure that no harmful quantities of radioactivity ever reach the surface environment. It is a multi-barrier approach, based on placing wastes deep underground, protected from disruption by man-made or natural events. Geological disposal is internationally recognised as the preferred approach for the long-term management of higher activity radioactive waste.”*

---

<sup>5</sup> Deddf Ynni 2008 [http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/32/pdfs/ukpga\\_20080032\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/32/pdfs/ukpga_20080032_en.pdf)

<sup>6</sup> Gellir gweld y Gorchymyn a'r Rheoliadau, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ynghylch rheoliadau ariannu digomisiynu niwclear a thrin gwastraff 2010 yn

[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc\\_dec\\_fin/nuc\\_dec\\_fin.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuc_dec_fin/nuc_dec_fin.aspx)

<sup>7</sup> [http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/rev\\_fdp\\_guide/rev\\_fdp\\_guide.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/rev_fdp_guide/rev_fdp_guide.aspx)

<sup>8</sup> Gellir gweld Ymgynghoriad 2008, ac Ymateb y Llywodraeth, yn

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.berr.gov.uk/consultations/page44784.html>

<sup>9</sup> Mae'r Papur Gwyn MRWS ar gael yn <http://mrws.decc.gov.uk/>

- 1.38 Mae'r Llywodraeth wedi rhoi'r cyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu prosesau gwaredu daearegol i'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear (NDA), fel y gall yr NDA lunio barn integredig ar draws y gadwyn rheoli gwastraff, a sicrhau yr ymdrinnir â materion hirdymor a byrdymor wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau. Ers hynny, sefydlwyd Cyfarwyddiaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWMD) yr NDA, gan ymgorffori adnoddau o United Kingdom Nirex Ltd gynt, a fydd yn datblygu'n sefydliad cyflawni effeithiol i weithredu gwaredu daearegol. Rhagwelir y bydd RWMD yn esblygu o dan yr NDA yn 'sefydliad cyflawni'r NDA' ar gyfer y GDF.
- 1.39 Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd yr NDA "Geological Disposal: steps towards Implementation"<sup>10</sup>, sef adroddiad sy'n disgrifio'r gwaith paratoi y mae'r NDA wedi'i wneud hyd yma, gan gynnwys cynllunio ei raglen waith ar gyfer y dyfodol a'r trefniadau rheoli i'w chyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth, i amrywiaeth eang o bartïon â diddordeb, am y camau y bydd eu hangen, ym marn yr NDA, i weithredu proses gwaredu daearegol yn llwyddiannus. Mae hefyd yn egluro sut mae gweithgareddau ac allbynnau gwahanol rhaglen waith yr NDA wedi'u cynllunio i sicrhau canlyniad diogel a chynaliadwy, sy'n dderbyniol i'r cyhoedd.

## Ymateb i'r ddogfen ymgynghori

- 1.40 Hoffem glywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau ariannol a sefydliadau eraill a all fod yn ymwneud ag ariannu gorsafoedd ynni niwclear newydd, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff arall â diddordeb.
- 1.41 Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n gymwys, sut y casglwyd ynghyd safbwyntiau aelodau.

## Sut i ymateb

- 1.42 Ceir ffurflen ymateb yn Atodiad A.
- 1.43 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **8 Mawrth 2011**. Mae'n well gennym gael ymatebion drwy neges e-bost. Anfonwch eich ymateb i gyfeiriad e-bost yr ymgynghoriad: [decomguidance@decc.gsi.gov.uk](mailto:decomguidance@decc.gsi.gov.uk)

---

<sup>10</sup> <http://www.nda.gov.uk/documents/upload/Geological-Disposal-Steps-Towards-Implementation-March-2010.pdf>

1.44 Fel arall, anfonwch gopi caled o ymatebion drwy'r post i:

Waste Transfer Pricing Methodology consultation  
Office for Nuclear Development  
Department of Energy and Climate Change  
3 Whitehall Place  
London  
SW1A 2AW

### Copiau ychwanegol

1.45 Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Mae modd lawrlwytho fersiwn electronig o wefan DECC yn:  
[http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/what\\_we\\_do/uk\\_supply/energy\\_mix/nuclear/new/waste\\_costs/waste\\_costs.aspx](http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/what_we_do/uk_supply/energy_mix/nuclear/new/waste_costs/waste_costs.aspx)

1.46 Gellir gofyn am ragor o gopiâu caled o'r ddogfen ymgynghori drwy gysylltu â:

Publications Orderline, ADMAIL, 528, London SW1W 8YT  
Ffôn: 0845-015 0010  
Ffacs: 0845-015 0020  
Minicom: 0845-015 0030

### Cyfrinachedd a diogelu data

1.47 Efallai y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi eich ymateb. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw fod ar gael i'r cyhoedd, boed hynny'n llawn neu'n rhannol, nodwch pa wybodaeth nad ydych am iddi gael ei datgelu. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, a gaiff ei greu gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran.

1.48 Dylech fod yn ymwybodol y gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000), Deddf Diogelu Data 1998 (Deddf 1998), a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

1.49 Os ydych am i wybodaeth a roddwyd gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, o dan Ddeddf 2000, y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill.

1.50 O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio pam rydych o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y cynhelir cyfrinachedd ymhob achos.

1.51 Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf 1998 ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

## Help gydag ymholiadau

- 1.52 Ceir copi o feini prawf cod ymarfer ymgynghoriad yn Atodiad C.
- 1.53 Dylech anfon unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad at y cyfeiriad e-bost isod: [decomguidance@decc.gsi.gov.uk](mailto:decomguidance@decc.gsi.gov.uk) neu ysgrifennwch at y cyfeiriad uchod.
- 1.54 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad (yn wahanol i sylwadau am y materion a godir yn yr ymgynghoriad), dylech eu hanfon at Gydgysylltydd Ymgynghori DECC:

DECC Consultation Co-ordinator  
3 Whitehall Place  
London  
SW1A 2AW  
E-bost: [consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk)

## Y camau nesaf

- 1.55 Caiff y dull terfynol o weithredu ar y materion a gwmpesir gan yr ymgynghoriad ei gyhoeddi yn 2011.

## Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad

- 1.56 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gwestiynau'r ymgynghoriad a restrir isod. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth yn hytrach na datganiadau syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.
- 1.57 Wrth ateb y cwestiynau hyn eglurwch eich atebion a rhowch resymau drostynt.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

1	A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu Cap ar y Pris Trosglwyddo Gwastraff ac y dylai'r Llywodraeth godi Ffi Risg, yn gyfnewid am bennu Cap? Beth yw'ch rhesymau?
2	A ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai 30 mlynedd ar ôl dechrau cynhyrchu trydan y dylai'r Cyfnod Gohirio fod, er mwyn gallu lleihau ansicrwydd o ran costau gwaredu gwastraff? Beth yw'ch rhesymau?
3	A oes gennych unrhyw sylwadau ar y Fethodoleg Prisio Trosglwyddo Gwastraff wedi'i diweddarau? Gofynnir am sylwadau yn benodol ar y dull arfaethedig o bennu Pris Disgwyliedig a Ffi Risg.